

Rhif: WG38317



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – Crynodeb o Ymatebion

Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Cynllun Cyflawni 2019-2022

Ionawr 2020

OGL

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

ISBN: 978-1-80038-052-3

© Hawlfraint y Goron

Adroddiad Cryno’r Ymgynghoriad – Cynllun Cyflawni Iechyd Meddwl 2019- 22

Cynnwys

Cynnwys.....	2
Cyd-destun	3
Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2012-22.....	3
Ymgynghoriad Ffurfiol.....	4
Ymgynghoriad Ar-lein	4
Digwyddiadau Ymgynghori â’r Cyhoedd	5
Crynodeb o ymatebion i’r ymgynghoriad ysgrifenedig	5
Dadansoddiad manwl pellach o themâu allweddol yr ymatebion i’r ymgynghoriad.....	8
Newidiadau mewn ymateb i’r ymgynghoriad	14
Atodiad A	17

Cynnwys

Gofynnodd yr ymgynghoriad am safbwyntiau ar *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Cynllun Cyflawni 2019-20*, sef y trydydd cynllun a’r cynllun olaf sy’n gweithredu’r strategaeth 10 mlynedd trawslywodraethol i wella iechyd meddwl a llesiant yng Nghymru.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 18 Gorffennaf a 30 Awst 2019 ar gyfer y cyhoedd a gwasanaethau cyhoeddus yn bennaf, gan gynnwys pobl â phrofiad o faterion iechyd meddwl a gofawyr, byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol, darparwyr trydydd sector, yr heddlu a gwasanaethau ambiwlans, iechyd Cyhoeddus Cymru ac unrhyw randdeiliaid allweddol eraill a allai fod â diddordeb yn y maes hwn.

Mae’r ddogfen hon yn cynnwys crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad ac yn dangos sut mae Llywodraeth Cymru yn ymateb iddynt. Nid yw’n cynnig barn fanwl ar sylwadau unigol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb am roi o'u hamser i gyflwyno eu safbwyntiau.

Cyd-destun

'*Law yn Llaw at Iechyd Meddwl*' yw strategaeth 10 mlynedd trawslywodraethol Llywodraeth Cymru i wella iechyd meddwl a llesiant i bob oedran. Cyhoeddwyd y strategaeth ym mis Hydref 2012, yn dilyn ymgysylltu sylweddol ac ymgynghori ffurfiol â rhanddeiliaid, ac mae wedi'i chefnogi gan gyfres o gynlluniau cyflawni manwl. Dyma'r trydydd cynllun, a'r un olaf.

Mae '*Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Cynllun Cyflawni 2019-22*' yn datblygu'r cynnydd a wnaed yn ystod oes y cynlluniau cyflawni blaenorol. Amcan cyffredinol y cynllun cyflawni yw gwella ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau iechyd meddwl, hyrwyddo lles meddyliol cadarnhaol, lleihau stigma a gwahaniaethu, a phwysleisio bod iechyd meddwl yn 'fusnes i bawb'.

Hefyd, mae'r cynllun yn cynnwys nifer o gamau gweithredu arfaethedig ar gyfer Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol. Datblygwyd y camau gweithredu hyn ar ôl ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol ac allanol ac ystyried adroddiadau perthnasol, argymhellion Pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol ac adborth gan bobl sydd wedi cael profiad o faterion iechyd meddwl. Hefyd, mae'r cynllun wedi'i lywio gan y broses o adolygu cynnydd tuag at nodau'r strategaeth gyffredinol.

Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2012-22

Mae strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn nodi nifer o ganlyniadau lefel uchel sy'n ceisio sicrhau gwelliant sylweddol mewn ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau iechyd meddwl i bobl o bob oed. Mae'r strategaeth yn cydnabod bod achosion ac effeithiau iechyd meddwl gwael yn gymhleth, yn heriol ac yn amlweddol, sy'n golygu bod angen dull gweithredu trawslywodraethol a thrawssector er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn.

Er bod y cynllun cyflawni yn amlinellu nifer o feysydd blaenoriaeth ar gyfer y tair blynedd i ddod, mae rhai o'r camau hyn yn cynrychioli parhad angenrheidiol a buddsoddiad mewn gwasanaethau. Hefyd, mae'r cynllun cyflawni wedi'i fwriadu i yrru newid sylweddol mewn darpariaeth gwasanaethau a/neu weithgaredd ychwanegol dan arweiniad y llywodraeth er mwyn hyrwyddo iechyd meddwl da ar lefel y boblogaeth.

Mae'r blaenoriaethau a fydd yn cael eu gwireddu trwy'r cynllun cyflawni yn parhau i gefnogi egwyddorion gofal iechyd darbodus a'r weledigaeth a amlinellwyd yn 'Cymru Iachach' gyda'i ffocws ar ofal integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a ddarperir mewn ffordd sydd wedi'i llywio gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

Mae'r broses o gyflwyno'r strategaeth gyffredinol a'i chynlluniau cyflawni perthnasol yn cael ei monitro a'i sicrhau trwy'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl a byrddau partneriaeth lleol.

Roedd dau gam i'r broses ymgysylltu/ymgyngori:

- Paratoadol – adolygu cynnydd a thystiolaeth, trafodaethau ar draws y sectorau ac yn y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl. Hefyd, roedd hyn yn cynnwys adolygiad o adroddiadau cysylltiedig pwyllgorau'r Cynulliad.
- Cyn ymgynghori – trafodaethau manwl â'r rhai sydd â phrofiad o faterion iechyd meddwl a phartneriaid cyflawni, er mwyn cytuno â'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu yn y cynllun. Roedd y broses ymgysylltu yn cynnwys cyfres o weithdai a gynhaliwyd ledled Cymru, trafodaethau wedi'u hwyluso a chyfarfodydd anffurfiol. Arweiniodd y cam hwn at gynllun drafft, a adolygwyd gan y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol ac eraill.

O ganlyniad i'r gweithgareddau ymgysylltu, nodwyd y meysydd blaenoriaeth canlynol at ddibenion ymgynghori:

- Atal iechyd meddwl gwael a chynnal lles meddyliol.
- Gwella mynediad at gymorth ar gyfer llesiant iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc.
- Gwelliannau pellach i ddarpariaeth Argyfwng a Thu Allan i Oriau i blant ac oedolion.
- Gwella mynediad, ansawdd ac ystod therapïau seicolegol i bob oedran.
- Gwella ansawdd a mynediad at wasanaethau iechyd meddwl amenedigol.
- Gwella ansawdd a mynediad at wasanaethau wrth ddatblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar adferiad.
- Cefnogi grwpiau agored i niwed.

Ymgynghoriad Ffurfiol

Lansiwyd yr ymgynghoriad chwe wythnos ar Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Cynllun Cyflawni 2019-22 Llywodraeth Cymru ar 18 Gorffennaf 2019, a daeth i ben ar 30 Awst 2019. Mae testun llawn yr ymgynghoriad ar gael yma:

https://llyw.cymru/lawyn-llaw-iechyd-meddwl-cynllun-cyflawni-2019-i-2022?_ga=2.105876483.1262525982.1576592242-639656406.1576592242

Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd trwy'r ymgynghoriad ar-lein a chyfarfodydd/digwyddiadau â rhanddeiliaid.

Ymgynghoriad Ar-lein

Derbyniwyd 240 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein, gan gynnwys 23 o ymatebion gwag. Mae rhestr gyflawn o ymatebwyr wedi'i chynnwys yn Atodiad A (heb unigolion), a dewisodd nifer o ymatebwyr i gadw eu hymateb yn gyfrinachol.

Cwblhawyd dadansoddiad thematig o'r ymatebion. Llwyddodd y broses hon i gategoreiddio'r safbwyntiau, y sylwadau, y datganiadau a'r materion a godwyd gan ymatebwyr yn themâu cyffredinol ar gyfer pob un o gwestiynau'r ymgynghoriad.

Digwyddiadau Ymgynghori â'r Cyhoedd

Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar-lein, cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru dri digwyddiad yn y Gogledd, y De a'r Gorllewin a fynychwyd gan dros 150 o bobl.

Cynhaliwyd y digwyddiadau yn y llefydd canlynol:

- Caerdydd – Dydd Gwener 9 Awst 2019.
- Llandudno – Dydd Mawrth 13 Awst 2019.
- Powys – Dydd Mercher 21 Awst 2019.

Yn ystod y digwyddiadau hyn, gofynnwyd tri chwestiwn i'r ymatebwyr, ac mewn grwpiau bach gofynnwyd iddynt drafod pob cwestiwn a darparu adborth ar y cyd.

Dyma'r cwestiynau:

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno â'r meysydd blaenoriaeth? A ydynt yn addas i'r diben?

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno eu bod yn ffrydiau gwaith trawsbynciol priodol i'w blaenoriaethu?

Cwestiwn 3 – Yn eich barn chi, pa elfennau o'r cynllun cyflawni arfaethedig sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf? Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Rhannwyd y digwyddiadau'n sesiynau bore a phrynhawn ac roedd amrywiaeth eang o randdeiliaid yn bresennol. Deilliodd nifer o themâu o'r trafodaethau bwrdd, a gofnodwyd wedyn er mwyn llywio'r ymgynghoriad.

Nododd rhai pobl fod angen i'r cynllun cyflawni terfynol ganolbwyntio mwy ar nifer o themâu, sef:

- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. □ Plant a phobl ifanc/addysg.
- Gofal mewn argyfwng a darpariaeth y tu allan i oriau. □ Ymyrraeth gynnar/atal.
- Diffyg ymgysylltu â'r trydydd sector wrth ddarparu gwasanaethau. □ Canlyniadau ac effeithiau.
- Grwpiau agored i niwed – ystyried nodweddion gwarchodedig.

Roedd y themâu hyn yn adleisio'r rhai a dderbyniwyd trwy'r ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad.

Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cyfuniad o gwestiynau amlddewis a naratif. Mae Tabl 1 isod yn crynhoi'r cwestiynau a nifer yr ymatebion i'r cwestiynau amlddewis. Mae crynodeb manwl arall o'r sylwadau a dderbyniwyd ar gyfer pob un o'r cwestiynau yn dilyn y tabl.

Tabl 1 – Ymatebion – Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1 - Mae'r cynllun cyflawni'n parhau i roi pwyslais mawr ar wella iechyd meddwl a llesiant pobl o bobl oed. Fyddech chi'n cytuno â'r egwyddor hon?			
Dewisiadau	Byddwn	Yn rhannol	Na fyddwn
Nifer yr Ymatebion	142 (74%)	47 (25%)	2
Cwestiwn 2 - Os mai yn rhannol neu na fyddwn oedd eich ateb, allwch chi ddweud wrthym pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen?			
Dewisiadau	<i>Ymateb naratif</i>		
Nifer yr Ymatebion			
Cwestiwn 3 - Ydy'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn gywir, yn eich barn chi? Ydyn nhw'n addas i'r diben?			
Dewisiadau	Ydyn	Yn rhannol	Nac ydyn
Nifer yr Ymatebion	99 (54%)	82 (44%)	4
Cwestiwn 4 – Allwch chi ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol i gefnogi'ch ymateb, gan nodi pam y mae'r meysydd blaenoriaeth yn briodol yn eich barn chi neu awgrymu meysydd neu newidiadau allweddol ychwanegol yr hoffech eu gweld?			
Dewisiadau	<i>Ymateb naratif</i>		
Nifer yr Ymatebion			
Cwestiwn 5 – Ydych chi'n cytuno mai'r rhain yw'r ffrydiau gwaith cyffredinol priodol i'w blaenoriaethu?			
Dewisiadau	Ydw	Yn rhannol	Nac ydw
Nifer yr Ymatebion	92 (51%)	83 (46%)	4
Cwestiwn 6 - Allwch chi ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol i gefnogi'ch ymateb, gan nodi pam eich bod yn credu y dylid blaenoriaethu'r ffrydiau gwaith hyn neu awgrymu ffrydiau gwaith neu newidiadau ychwanegol yr hoffech eu gweld?			
Dewisiadau	<i>Ymateb naratif</i>		
Nifer yr Ymatebion			
Cwestiwn 7 - O fewn pob thema allweddol, rydym wedi nodi nifer o bwyntiau gweithredu a cherrig milltir allweddol. Ydych chi'n teimlo mai'r rhai sydd wedi eu nodi yw'r rhai cywir?			
Dewisiadau	<i>Ymateb naratif</i>		
Nifer yr Ymatebion			
Cwestiwn 8 - Os ydych chi'n teimlo bod unrhyw bwyntiau gweithredu neu gerrig milltir allweddol ar goll, allwch chi ddweud wrthym beth rydych chi'n teimlo sydd ar goll a beth fydddech chi'n argymhell y dylem ei ychwanegu?			
Dewisiadau	<i>Ymateb naratif</i>		

Nifer yr Ymatebion			
Cwestiwn 9 - Yn eich barn chi, ydy'r Cynllun Cyflawni arfaethedig yn cysylltu'n dda gyda meysydd polisi a gwasanaeth eraill?			
Dewisiadau	Ydw	Yn rhannol	Nac ydw
Nifer yr Ymatebion	68 (44%)	81 (53%)	5
Cwestiwn 10 – A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r meysydd lle mae'r Cynllun Cyflawni'n cysylltu'n dda gyda meysydd polisi a gwasanaeth eraill, a sut allai'r Cynllun gysylltu'n well gyda meysydd eraill yn eich barn chi?			
Dewisiadau	<i>Ymateb naratif</i>		
Nifer yr Ymatebion			
Cwestiwn 11 – Yn eich barn chi, pa elfennau o'r cynllun cyflawni arfaethedig sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf?			
Dewisiadau	<i>Ymateb naratif</i>		
Nifer yr Ymatebion			
Cwestiwn 12 - Pa effeithiau ydych chi'n meddwl y gallai fod? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu sut gellid lliniaru effeithiau negyddol?			
Dewisiadau	<i>Ymateb naratif</i>		
Nifer yr Ymatebion			
Cwestiwn 13 - A wnewch chi egluro sut rydych chi'n credu y gellid newid y cynllun cyflawni arfaethedig fel ei fod yn:			
<ul style="list-style-type: none"> • cael effeithiau cadarnhaol neu gynnydd mewn effeithiau cadarnhaol mewn perthynas â rhoi cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin heb unrhyw ffafriaeth • sicrhau nad oes unrhyw effaith negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac nad yw'r Saesneg yn cael unrhyw ffafriaeth dros y Gymraeg. 			
Dewisiadau	<i>Ymateb naratif</i>		
Nifer yr Ymatebion			
Cwestiwn 14 - Ydych chi'n meddwl y bydd y camau gweithredu sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun cyflawni yn cael effaith gadarnhaol ar bobl sydd â'r nodweddion gwarchodedig canlynol:-			
<ul style="list-style-type: none"> • Anabledd • Hil • Rhywedd ac ailbennu rhywedd • Oedran • Crefydd a chred a dim cred • Cyfeiriadedd rhywiol • Hawliau Dynol • Plant a phobl ifanc 			
Dewisiadau	Ydw	Yn rhannol	Nac ydw
Nifer yr Ymatebion	60 (39%)	79 (51%)	15
Cwestiwn 15 - Allwch chi ddarparu rhagor o wybodaeth am sut y bydd y camau gweithredu yn cael effaith gadarnhaol ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig neu'r meysydd y gellid eu gwella yn eich barn chi?			
Dewisiadau	<i>Ymateb naratif</i>		
Nifer yr Ymatebion			

Cwestiwn 16 - Rydym wedi gofyn cyfres o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol i'w trafod sydd ddim wedi eu crybwyll yn benodol, defnyddiwch y gofod isod i roi gwybod i ni:	
Dewisiadau	<i>Ymateb naratif</i>
Nifer yr Ymatebion	

Trosolwg o Nifer yr Ymatebion Ysgrifenedig a Mathau o Ymatebwyr

Tabl 2 – Gwybodaeth am yr unigolion/ sefydliadau a ymatebodd.

Unigolion	80
Heb Nodi	14
Y Sector Gwirfoddol	40
Sefydliadau'r GIG	31
Awdurdod Lleol	24
Sefydliadau Defnyddwyr Gwasanaethau a Chyrff sy'n Cynrychioli Gofalwyr	3
Cyrff Proffesiynol (Gofal Cymdeithasol Cymru, Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, Coleg Brenhinol Meddygon Teulu ac ati)	13
Arall	12
Gwag	23

Dadansoddiad manwl pellach o themâu allweddol yr ymatebion i'r ymgynghoriad

Cwestiynau 1 a 2 – 'gwella iechyd meddwl a llesiant i bob oedran'

Derbyniwyd 191 o ymatebion i gwestiwn 1, a nododd 142 o ymatebwyr (74%) eu bod yn cytuno bod y cynllun cyflawni yn parhau i roi pwyslais cryf ar wella iechyd meddwl a llesiant ar gyfer pobl o bob oed. Roedd y 47 o ymatebwyr eraill yn 'cytuno'n rhannol' (25%) a dim ond dau ymatebydd a oedd yn anghytuno â'r dull gweithredu.

Roedd cwestiwn 2 yn gofyn am ymateb naratif, a nodwyd nifer o themâu allweddol sy'n cael eu crynhoi isod:

- **Ymyrraeth Gynnar/Ataliol**

Er bod cytundeb cyffredinol bod y pwyslais ar atal a llesiant yn gadarnhaol ac yn bwysig, nodwyd rhai sylwadau ynglŷn ag ystyriaethau eraill. Cafwyd cytundeb cadarn ynglŷn â'r pwyslais ar ymyrryd yn gynnar, atal, cydnerthedd a hyrwyddo lles meddyliol da, yn ogystal â'r pwyslais ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, er mwyn sicrhau bod pawb yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd.

- **Cydafiachedd/Anghenion Cymhleth**

Nododd yr ymatebwyr fod angen adlewyrchu'r rhai sydd ag anghenion lluosog neu gymhleth, fel problemau camddefnyddio sylweddau sy'n digwydd ar y cyd, neu gyflyrau niwroddatblygiadol. Awgrymodd rhai bod angen osgoi categorïau neu 'seilos' ar wahân ar gyfer pob un, yn unol â'r ffaith fod unigolion yn gallu wynebu cyfuniad o heriau nad oes modd eu categoreiddio.

- **Plant a Phobl Ifanc/Addysg**

Cafwyd cytundeb cadarn ar gyfer yr angen i ganolbwyntio ar blant a phobl ifanc, a'r angen i sicrhau bod y cynllun yn adlewyrchu anghenion plant mewn lleoliadau addysg yn ogystal â'r rhai nad ydynt mewn addysg neu hyfforddiant ffurfiol a'r 'canol coll'.

Roedd rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd yn cyfeirio at wasanaeth amenedigol ac yn awgrymu bod angen rhoi mwy o bwyslais ar gynorthwyo rhieni / rhianta i sicrhau bod 1000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn mor gadarnhaol â phosibl. Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r dull ysgol gyfan (ar gyfer llesiant a chydnerthedd emosiynol) gan nodi ei fod yn gadarnhaol.

- **Integreiddio a chydweithio rhwng gwasanaethau**

Cytundeb cadarn ar ganolbwyntio ar integreiddio, gan nodi bod angen rhoi mwy o bwyslais ar bontio rhwng gwasanaethau.

- **Gwasanaethau Ataliol/Cymunedol**

Roedd ymatebwyr yn teimlo'n gryf bod camau gweithredu sy'n cefnogi llesiant ar lefel y boblogaeth yn bwysig iawn. Roedd rhai ymatebwyr yn credu bod angen rhoi pwyslais cryfach ar ofal sylfaenol.

- **Canolbwyntio ar Bob Oed**

Mae Iechyd Meddwl yn effeithio ar bobl o bob oed, ac er bod llawer o ymatebion yn teimlo bod y cynllun yn eang ac yn cynnwys pob ystod oedran, roedd diffyg pwyslais ar bobl hŷn.

Cwestiynau 3 a 4 – Meysydd Blaenoriaeth

Cafwyd 185 o ymatebion i gwestiwn 3, gyda 99 o ymatebwyr (54%) yn nodi eu bod yn cytuno â'r dull gweithredu, 82 o ymatebwyr yn dweud eu bod yn 'cytuno'n rhannol' (44%) a dim ond 4 ymatebydd yn anghytuno â'r dull gweithredu. Unwaith eto, cytunwyd bod ymyrraeth gynnar/atal sy'n canolbwyntio'n benodol ar blant a phobl ifanc yn un o'r prif themâu i'w hystyried ymhellach yng nghwestiynau 3 a 4.

Roedd cwestiwn 4 yn gofyn am ymateb naratif, a nodwyd nifer o themâu allweddol sy'n cael eu crynhoi isod:

Roedd sylwadau ychwanegol yn adlewyrchu'r themâu canlynol:

- **Gofal mewn Argyfwng/Tu Allan i Oriau**

Roedd sawl sylw yn croesawu'r pwyslais ar wella mynediad i ofal mewn argyfwng a chymorth y tu allan i oriau er mwyn sicrhau bod darpariaeth 24 awr ar gael ledled Cymru, ar gyfer plant a phobl ifanc yn benodol.

- **Therapiau Seicolegol**

Er mwyn gwella mynediad, ansawdd ac ystod therapïau seicolegol, roedd ymatebwyr yn teimlo bod angen darparu rhagor o hyfforddiant a chysiau achrededig i helpu i wella canlyniadau.

- **Grwpiau Agored i Niwed/Cydraddoldeb**

Teimlodd llawer o ymatebwyr fod angen pwyslais cryfach ar grwpiau agored i niwed, ar draws holl ystod y nodweddion gwarchoddedig (cymunedau romani/teithwyr, LGBT a chymunedau byddar) er mwyn lleihau anghydraddoldeb ar gyfer grwpiau agored i niwed ag anghenion iechyd meddwl, gan sicrhau mynediad a darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl teg. Hefyd, cyfeiriodd rhai ymatebion at gymorth parhaus ar gyfer cyn-filwyr.

Cwestiynau 5 a 6 – Ffrydiau Gwaith Cyffredinol i'w blaenoriaethu

Cafwyd 179 o ymatebion i gwestiwn 5, a nododd 92 o ymatebwyr (51%) eu bod yn cytuno â'r dull gweithredu, nododd 83 o ymatebwyr eu bod yn 'cytuno'n rhannol' (46%) a dim ond 4 ymatebydd a oedd yn anghytuno â'r dull gweithredu.

Roedd cwestiwn 6 yn gofyn am ymateb naratif, a nodwyd nifer o themâu allweddol sy'n cael eu crynhoi isod:

Er bod yr ymatebion yn trafod y rhan fwyaf o'r themâu a restrwyd uchod, nodwyd y themâu canlynol hefyd:

- **Cyd-gynhyrchu**

Cyfeiriodd sawl ymateb at yr angen am gyd-gynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofawyr sydd â phrofiad o ddefnyddio gwasanaethau iechyd meddwl wrth ddylunio gwasanaethau. Hefyd, nododd rhai ymatebwyr nad oedd cyfeiriad digonol at ofalwyr yn y cynllun drafft.

- **Gweithlu**

Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo bod angen gwneud mwy i gefnogi staff sy'n darparu gwasanaethau, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y gweithlu, ac ystyried trefniadau hyfforddiant yng Nghymru.

Hefyd, cafwyd nifer o awgrymiadau i gynnwys camau gweithredu a cherrig milltir er mwyn cynyddu nifer y gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol yn y GIG i leihau'r rhestri aros a darparu hyfforddiant priodol a thrwyadl er mwyn darparu gwasanaethau o'r ansawdd gorau.

- **Data**

Roedd pwyslais cryf ar yr angen i wella'r defnydd o ddata a phwysigrwydd cofnodi canlyniadau gyda chymorth i ddatblygu set ddata graidd iechyd meddwl ac anableddau dysgu.

Cwestiynau 7 ac 8 – Camau gweithredu a cherrig milltir allweddol

Roedd cwestiynau 7 ac 8 yn gofyn am ymateb naratif. Derbyniwyd 134 o ymatebion i gwestiwn 7 a 166 o ymatebion i gwestiwn 8. Roedd y rhan fwyaf o ymatebion yn cytuno ein bod wedi nodi camau gweithredu a cherrig milltir allweddol y byddai angen eu gweithredu fel rhan o'r cynllun cyflawni hwn. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn pryderu nad oedd y camau gweithredu a'r cerrig milltir yn ddigon arloesol.

Mae'r rhan fwyaf o sylwadau a dderbyniwyd i'r ddau gwestiwn hyn wedi'u cynnwys yn y testun uchod, ac mae nifer o bwyntiau allweddol ychwanegol wedi'u crynhoi isod:

- **Integreiddio a Chydweithio rhwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl**

Roedd ymatebwyr yn teimlo bod angen i'r cynllun cyflawni ganolbwyntio ar ddatblygu gwaith integredig a/neu gydweithredol wrth ddarparu gwasanaethau yn hytrach na pharhau â gwasanaethau arbenigol annibynnol. Dylid cefnogi'r defnydd o asesiadau integredig a phrosesau cynllunio gofal er mwyn gwella mynediad i wasanaethau iechyd meddwl, a gwella ansawdd y gwasanaethau.

- **Pobl â chysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol**

Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth eang i'r syniad o nodi'r rhai sydd â chysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol fel grŵp agored i niwed yn y cynllun cyflawni, gan gydnabod yr anghydraddoldebau a wynebir gan y grŵp hwn, eu canlyniadau iechyd meddwl gwaeth a'u hanghenion iechyd penodol. Ar yr un pryd, roedd nifer fach o ymatebion yn beirniadu'r ffaith fod y broses o ehangu mynediad yn canolbwyntio ar grwpiau agored i niwed, a bod angen adran ar wahân yn y cynllun cyflawni ar gyfer y rhai sydd â chysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol.

- **Data**

Cyfeiriwyd yn benodol at y pwysigrwydd o gasglu data ar ganlyniadau iechyd grwpiau agored i niwed (gan gynnwys y rhai yn y carchar) a'r rhai â nodweddion gwarchoddedig.

- **Materion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyddigwydd**

Un thema gyffredin a ddaeth i'r amlwg oedd cryfhau camau gweithredu ar faterion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd. Codwyd y mater

hwn gan ymatebwyr i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau hefyd.

Cwestiynau 9 a 10 – 'cysylltiadau â meysydd perthnasol eraill'

Cafwyd 154 o ymatebion i gwestiwn 9, a nododd 68 o ymatebwyr (44%) eu bod yn cytuno bod y cynllun cyflawni yn cysylltu'n dda â meysydd polisi a gwasanaeth eraill. Dywedodd 81 o ymatebwyr eu bod yn 'cytuno'n rhannol' (53%), a dim ond 5 ymatebydd a oedd yn anghytuno â'r dull gweithredu.

Roedd cwestiwn 10 yn gofyn am ymateb naratif ynglŷn â ble mae'r cynllun hwn yn cysylltu'n dda â meysydd polisi eraill a sut y gellid cryfhau hyn. Codwyd nifer o themâu allweddol sy'n cael eu crynhoi isod:

- **Cysylltiadau â meysydd polisi perthnasol eraill**

Roedd rhai ymatebwyr wedi cyfeirio'n benodol at y ffaith fod y cynllun cyflawni yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac agenda 'Cymru Iachach' Llywodraeth Cymru. Awgrymodd rhai o'r ymatebion y gellid gwella'r cynllun cyflawni trwy greu cysylltiadau gwell â pholisïau a meysydd gwasanaeth eraill, gan gynnwys Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016; gwasanaethau Nam ar y Synhwyr, gwasanaethau Trydydd Sector a'r Gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol.

- **Atal/ymyrraeth gynnar**

Roedd y sylwadau a dderbyniwyd yn pwysleisio pwysigrwydd gwaith atal a sicrhau llesiant ac ymyrraeth gynnar. Mae elfennau'r cynllun sy'n canolbwyntio ar atal problemau iechyd meddwl yn debygol o gael yr effaith fwyaf yn yr hirdymor.

- **Mynediad at wasanaethau**

Hefyd, derbyniwyd nifer o sylwadau yn ymwneud â phwysigrwydd gwella mynediad at wasanaethau, a nodwyd y byddai hyn yn cael yr effaith fwyaf i bawb, ond yn enwedig i blant a phobl ifanc, gofal mewn argyfwng a'r tu allan i orau, a grwpiau agored i niwed.

Cwestiwn 11 - pa elfennau o'r cynllun cyflawni arfaethedig sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf?

Roedd cwestiwn 11 yn gofyn am ymateb naratif ynglŷn â pha elfennau o'r cynllun cyflawni arfaethedig sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf. Mae'r meysydd a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ym marn ymatebwyr eisoes wedi'u nodi sawl gwaith yn y ddogfen hon ac wrth grynhoi'r cwestiynau blaenorol. Fodd bynnag, nodwyd y byddai'r themâu allweddol canlynol yn cael yr effaith fwyaf:

- **Atal/ymyrraeth gynnar**
- **Gwella mynediad at wasanaethau (i blant a phobl ifanc, therapïau seicolegol a gofal mewn argyfwng a'r tu allan i oriau)**
- **Y gweithlu (gwella cyllid a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal proffesiynol)**

Cwestiynau 12 a 13 – 'Effeithiau'r cynllun cyflawni ar yr iaith Gymraeg'

Roedd cwestiynau 12 a 13 yn gofyn am ymateb naratif. Derbyniwyd 107 o ymatebion i gwestiwn 12 ac 82 o ymatebion i gwestiwn 13. Codwyd nifer o themâu allweddol sydd wedi'u crynhoi isod:

- **Dull Cyfathrebu**

Roedd ymatebwyr o'r farn fod gan bobl â phroblemau iechyd meddwl yr un anghenion iaith a chyfathrebu amrywiol â gweddill cymdeithas, ac y bydd sicrhau dulliau cyfathrebu da rhwng y rhai sy'n cynllunio/darparu gwasanaethau a'r rhai sy'n eu derbyn yn gwella profiad defnyddwyr gwasanaethau neu ofalwyr unigol.

Roedd llawer o'r sylwadau a dderbyniwyd yn nodi bod angen darparu cymorth/gwasanaethau iechyd meddwl yn yr iaith y mae pobl yn gyfforddus yn ei defnyddio, gan ategu'r angen i ehangu mynediad i'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael.

- **Yr Iaith Gymraeg**

Nododd y rhai a ymatebodd fod dulliau cyfathrebu a gwybodaeth ddwyieithog yn bwysig. Nododd nifer fach o ymatebwyr nad oedd ganddynt unrhyw safbwyntiau penodol ar sut y gellid newid y cynllun cyflawni i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Cwestiynau 14 a 15 – 'Effeithiau'r cynllun cyflawni ar y rhai â nodweddion gwarchoddedig'

Cafwyd 154 o ymatebion i gwestiwn 14, a nododd 60 o ymatebwyr (39%) fod y cynllun cyflawni yn cysylltu'n dda â meysydd polisi a gwasanaeth perthnasol eraill. Dywedodd 79 o ymatebwyr eu bod yn 'cytuno'n rhannol' (51%), ac roedd 15 o ymatebwyr yn anghytuno â'r dull gweithredu.

Roedd cwestiwn 15 yn gofyn am ymateb naratif er mwyn darparu rhagor o wybodaeth am sut y bydd y camau gweithredu yn cael effaith gadarnhaol ar bobl â nodweddion gwarchoddedig neu welliannau pellach.

Cyfeiriodd ymatebwyr at yr angen i ystyried cynnwys iaith Arwyddion Prydain yn ogystal â gwasanaethau dehongli ar gyfer pobl ag anghenion synhwyrdd neu ieithoedd cyntaf sy'n wahanol i'r Gymraeg a'r Saesneg.

Hefyd, cyfeiriodd ymatebwyr at yr angen i ystyried mynediad anghyfartal ar draws nifer o grwpiau agored i niwed.

Cwestiwn 16 – Gwybodaeth Ychwanegol

Roedd y cwestiwn hwn yn galluogi ymatebwyr i ddarparu unrhyw wybodaeth arall nad oedd wedi cael sylw penodol yn y cwestiynau eraill yn eu barn nhw.

Teimlodd ymatebwyr y byddai rhagor o bwyslais ar bontio (rhwng gwasanaethau plant ac oedolion a rhwng timau lluosog ar gyfer y rhai ag anghenion cymhleth) yn gwella'r cynllun.

Hefyd, roedd ymatebwyr o'r farn nad oedd digon o bwyslais ar ofalwyr a theuluoedd yn y cynllun drafft.

Roedd llawer o sylwadau'n awgrymu ei bod yn anodd darllen y ddogfen, gan gynnwys yr iaith a ddefnyddiwyd yn y cynllun. Dywedodd rhai pobl fod y ddogfen yn rhy gymhleth a bod angen fersiwn iaith syml.

Newidiadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad

Yn y fersiwn terfynol o'r cynllun, rydym wedi ystyried sylwadau golygu manwl a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad, gan adolygu a diwygio'r ddogfen derfynol fel sy'n briodol. Roedd hyn yn cynnwys cyfeirio'n benodol at oedolion hŷn mewn nifer o gamau gweithredu. Hefyd, rydym wedi cynnwys geirfa yn y ddogfen er mwyn ystyried iaith, a byddwn yn cyhoeddi fersiwn iaith syml ochr yn ochr â'r cynllun cyflawni.

Oherwydd nifer yr ymatebion a dderbyniwyd, dosbarthwyd yr ymatebion ar sail themâu er mwyn nodi meysydd allweddol i gryfhau'r cynllun. Ceir crynodeb ohonynt isod:

- Atal a ffactorau amddiffynnol – gyda phwyslais penodol ar dai
- Anghydraddoldeb a phenderfynyddion cymdeithasol ym maes iechyd meddwl a llesiant
- Gofal Sylfaenol
- Y Gweithlu
- Canlyniadau a data
- Gweithio ar draws y sector

Hefyd, mae newidiadau strwythurol allweddol wedi'u gwneud i adlewyrchu sylwadau yn yr ymgynghoriad. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi mwy o bwyslais ar fynediad cyfartal ac anghydraddoldebau trwy gynnwys thema gyffredinol newydd. Hefyd,

mae'r themâu cyffredinol wedi'u symud i ddechrau'r cynllun er mwyn pwysleisio'r ffaith eu bod yn sylfaen i gamau gweithredu ehangach. Maent yn cynnwys:

- Lleihau **anhydraddoldebau iechyd**, hyrwyddo mynediad cyfartal a chefnogi'r **laith Gymraeg**.
- Cryfhau **cyd-gynhyrchu** a chefnogi **gofalwyr**.
- Datblygu cynllun gweithlu mewn partneriaeth â Rhwydwaith Iechyd Meddwl y GIG ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru i gefnogi gwelliannau gwasanaethau yn y tymor canolig a'r hirdymor ac i sicrhau gweithlu iechyd meddwl sefydlog a chynaliadwy.
- Gweithredu'r set ddata graidd i wella cysondeb, cadernid a'r ffocws ar ganlyniadau ar draws gwasanaethau iechyd meddwl pob oed.
- Cefnogi'r **cyd-destun deddfwriaethol** – gwneud y newidiadau sydd eu hangen i weithredu diwygiadau cyfreithiol hysbys i Ddeddf Galluedd Meddyliol 1983 a datblygu ymateb strategol sydd angen newidiadau i Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a Deddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn gweithredu a llywio ein bwriadau polisi a'n canlyniadau, a bwriadau polisi a chanlyniadau'r cynllun.

Mae newidiadau allweddol o dan themâu a nodwyd yn yr ymgynghoriad yn cynnwys:

Atal a ffactorau amddiffynnol - gyda phwyslais penodol ar dai:

- Mae'r adran hon wedi'i chryfhau'n sylweddol i gynnwys cysylltiadau ehangach â phenderfynyddion cymdeithasol a ffactorau amgylcheddol. Yn benodol, mae'r cysylltiadau rhwng iechyd meddwl a thai wedi'u cryfhau.

Anhydraddoldebau a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd:

- Mae'r maes hwn wedi'i wneud yn flaenoriaeth gyffredinol - 'Lleihau Anhydraddoldebau Iechyd, Mynediad Cyfartal a Chefnogi'r laith Gymraeg' ac mae'n cynnwys ystod ehangach o gamau gweithredu gan gynnwys gwaith parhaus o'r cynlluniau blaenorol (cymorth i gyn-filwyr, cynllun achredu Diverse Cymru, cyflwyno canllaw ar geiswyr lloches a ffoaduriaid, Fy Nhrin yn Deg ac ati) er mwyn cadw'r pwyslais ar weithredu.

Gofal Sylfaenol

- Mae camau gweithredu newydd wedi'u cynnwys er mwyn adlewyrchu cerrig milltir clystyrau, gwella cymorth ar gyfer gofal sylfaenol a datblygu llwybr argyfwng ar gyfer gwasanaethau'r tu allan i oriau ac 111. Hefyd, ceir cyfeiriad penodol at y llwybr iechyd meddwl yn y Cynllun Clinigol Cenedlaethol. **Y Gweithlu**
- Mae cam gweithredu newydd wedi'i gynnwys i ddatblygu cynllun gweithlu ar gyfer iechyd meddwl, gan weithio gyda'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae'n cyd-fynd â Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gwasanaethau

Cymdeithasol 10 mlynedd sy'n cael ei datblygu gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Canlyniadau a data

- Roedd yr adran hon ond wedi'i chwblhau'n rhannol ar gyfer yr ymgynghoriad oherwydd y gwaith sy'n cael ei wneud gan KAS i adolygu'r rhestr bresennol o fesurau canlyniadau yn Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Mae rhestr lawn o ddangosyddion wedi'i chynnwys gyda dangosydd allweddol ar gyfer pob un o'r meysydd blaenoriaeth. Hefyd, rydym wedi cryfhau'r elfennau ymchwil, gan gynnwys cysylltiadau â dysgu o'r prosiectau trawsnewid iechyd meddwl.

Gweithio ar draws y sector

- Mae camau gweithredu newydd wedi'u cynnwys i adlewyrchu cyllid ar gyfer anghenion cymhleth trwy'r Byrddau Cynllunio Ardal er mwyn cefnogi materion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd, gan ganolbwyntio ar dai. Hefyd, mae'r gwaith wedi'i gryfhau trwy gynnwys llwybrau trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar ledled Cymru sy'n archwilio dewisiadau ar gyfer sut y gellir darparu gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar mewn ffordd fwy integredig a systematig. Hefyd, rydym wedi nodi'n fwy eglur lle mae camau'n cael eu gweithredu ar draws asiantaethau lluosog, gan gynnwys gofal mewn argyfwng.

Hefyd, derbyniwyd nifer o sylwadau fel rhan o'r ymgynghoriad a ystyriwyd i fod y tu allan i gwmpas y gwaith hwn. Roeddent yn perthyn i'r meysydd cyffredinol canlynol:

- Manylion a fyddai'n cael eu cynnwys mewn cynlluniau gweithredol, yn hytrach na chynllun cyflawni strategol.

- Materion sy'n cael effaith ar iechyd meddwl ond sy'n fwy perthnasol i ffrydiau gwaith eraill.

Atodiad A

Academics UK (MHNAUK)
Action on Postpartum Psychosis
Action on Smoking and Health Cymru (ASH Cymru) AGE
Cymru
Grŵp Atgyfeirio Cleifion Diabetes Cymru Gyfan
FACTS Cymru Gyfan – Gwasanaeth Triniaeth ac Ymgynghori Fforensig y Glasoed
Cymru Gyfan (Haen 4 Iechyd Meddwl)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Gwasanaeth Seicoleg Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Swyddog Cyswllt Rhanbarthol Cyfamod y Lluoedd Arfog
Prifysgol Bangor
Beat
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Adran Seicoleg Clinigol Anableddau Dysgu Plant Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr
Therapiau Seicoleg Clinigol a Seicolegol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Y Gymdeithas Brydeinig ar gyfer Iechyd Meddwl a Byddardod
Cartrefi Caerffili, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Fforwm Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro (ar gyfer grwpiau trydydd sector â
diddordeb ym maes iechyd meddwl)
Prifysgol Caerdydd
Gofalwyr Cymru
Cyngor Sir Ceredigion
Sefydliad Tai Siartredig Cymru
Plant yng Nghymru
Comisiynydd Plant Cymru
Colegau Cymru
Gwasanaethau Cymorth Cymunedol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – ar ran Gwasanaeth Pobl Agored i Niwed Conwy
Tîmau Datrys Argyfwng a Thriniaeth yn y Cartref NPTH
Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Cymorth Cymru
Cyngor Sir Ddinbych
Diverse Cymru
Swyddogion Materion Allanol, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru
Undeb Amaethwyr Cymru
Gwasanaethau Iechyd Meddwl Fforensig
Bwrdd Cynllunio Ardal Gwent
Hafal
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)
Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi

Humans

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Llamau

Meddwl.org/ Model.org

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru

Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Diabetes yng Nghymru

Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched

Pwyllgor Rheoli Cenedlaethol Therapiau Seicolegol (NPTMC)

Bwrdd Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Gogledd Cymru

NSPCC Cymru

NYAS Cymru (Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol)

Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau

Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent Comisiynydd

Pobl Hŷn Cymru

Rhiant mewn galar oherwydd hunanladdiad

Place2Be

Gwasanaethau Therapi Chwarae

Uned Gyswilt yr Heddlu yn dilyn ymatebion gan Heddlu Dyfed Powys, Heddlu

Gwent, Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu De Cymru

Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Powys

ProMo-Cymru

PTHB ar ran y Live Well – Partneriaeth Cynllunio a Datblygu Iechyd Meddwl

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Rhondda Cynon Taf

Merthyr

Pen-y-bont ar Ogwr

Y Lleng Brydeinig Frenhinol

Coleg Brenhinol y Seiciatryddion

Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol yng Nghymru

Samariaid Cymru

Sign Health

Gofal Cymdeithasol Cymru

Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych

Bwrdd Iechyd Bae Abertawe

Cyngor Abertawe

Cyngor Abertawe (Gwasanaethau Cymdeithasol)

Prifysgol Abertawe

Tai Pawb

Y Sefydliad Iechyd Meddwl

Y Fforwm Iechyd Meddwl Cenedlaethol

Confederasiwn GIG Cymru

Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (T4CYP) – Rheolwr Prosiect

UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)

United Welsh

Prifysgol De Cymru

Cyngor Bro Morgannwg

GIG Cymru i Gyn-filwyr

Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru
Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Gweithredu Gorllewin Cymru Dros Iechyd Meddwl
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Y Fenter
C.P.I.
Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid